

Gair bach Bethlehem 2021

RHIFYN 29



www.bethlehem.cymru

(trydar) @GweBethlehem

Gwaelod-y-garth

Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 29 Gorff 3 2021

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

**AR
AGOR
ETO!**

**Sul Cymun
Gorffennaf
4ydd**



Anghofiwch "Gorffennaf" – mae "Dechreuaf" yn air mwy addas ar gyfer y Sul sydd ar fin cyrraedd. Dyma ddyddiad ail-gychwyn addoli ym Methlehem ei hun am y tro cyntaf ers mis Rhagfyr.

- Mae'r lle wedi ei beintio o'r newydd.
- Bydd yr holl reolau ar waith i'ch diogelu
- Mae Rhodri'n manylu ar dudalen 2
- Bydd y seddau wedi ei neilltuo
- Cewch eich tywys i'ch sedd
- Bydd hylif diheintio ar gael ac mae angen gwisgo masg
- Ond y tro hwn byddwn yn cael canu
- Mae'r rhifau emynau yn erthygl Delwyn
- Dewch â'ch copi eich hunan o'r 3 emyn – neu gyfrol Caneuon Ffydd
- Dewch ag elfennau i gymuno – bara/bisged a llymaid o hylif yn lle gwin cymun.
- Recordir yr oedfa a'i gosod ar-lein mor fuan â phosib wedi hynny.

Ond cofiwch roi gwybod i Rhodri am eich bwriad i fynychu. Mae angen gwneud, er mwyn cadw at y rheolau a'r niferoedd. Cysylltwch i neilltuo sedd - rhodrigj@btinternet.com. Rhagor o fanylion ar dudalen 2.

Hefyd yn y rhifyn hwn:

*** Delwyn**

*** Yr Ysgol Sul * Newyddion**

*** Camau Heulwen**

*** Yr Oedfaon**

*** Odlau'r Garth**

*** Erthyglau'n sôn am Longddrylliad,
lancs a Doctor Who!**

COFIWCH HEFYD AM

CHWARAEON

YR YSGOL SUL,

**am 3.00 y pwan Sul nesaf –
Gorffennaf 4**

“Awn i Fethlem...” a chawn Ganu!

Delwyn Sion



Yn y bedwaredd ganrif ar ddeg mae'r gair “emyn” yn cael ei gofnodi'n gyntaf, ond mae'n debyg bod yna emynau yng Nghymru cyn hynny. Mae yna farddoniaeth gysegredig; at bwrpas canu mwy na thebyg, yn Llyfr Du Caerfyrddin, ein llyfr ysgrifenedig cynharaf ni, ac mae Gerallt Gymro'n sôn am ganu'r Cymry yn ei lyfr “Disgrifiad o Gymru” ac yn

nodi ein bod ni fel cenedl; yn wahanol i genhedloedd eraill, yn canu yn naturiol mewn harmoni.

“Pan fo côr yn casglu i ganu, sy'n digwydd yn aml yn y wlad hon, fe glywch yr un gymaint o rannau lleisiol ag sydd o berfformwyr, a'r cyfan yn cynhyrchu harmoni organig ac alaw melys mwyn.” Felly! Gantorion y Gwaelod - “No Pressure”- wrth i ni ail gydio'n y canu dydd Sul! Ond gan bo ni heb “gynhyrchu harmoni organig ac alaw melys mwyn” ers tro byd, feddylies i bydde rhai ohonoch chi moyn gwbod pa emynau y byddwn ni'n ganu, er mwyn ymarfer yn y bath, (ar yr amod bo chi ddim yn gwlychu'ch Caneuon Ffydd!!!) felly dyma'r rhifau pwysig:- 36 - 500 - 205.

A dwi'n siŵr ein bod ni gyd, ar ôl misoedd o ddisgwyl, yn 'amen-io' llinellau Nantlais:

“Gyda thoriad gwawr y bore,
o mor felys yw
codi'n llef a llafar ganu,
canu mawl i Dduw.”

Delwyn

O'r Cwrdd Diaconiaid

Gorffennaf yr ail agor

Cyfarfu'r Diaconiaid, ar Zoom, ar yr 21ain o Fehefin 2021. Mynegwyd diolch i bawb yn ddiwahân sydd, yn sgil yr haint, sydd wedi goddiweddyd ein byd, wedi sicrhau bod oedfaon ac Ysgol Sul wedi eu cynnal yn rhithiol ym Methlehem ers canol mis Rhagfyr 2020. Mae'r parodrwydd i fod o gymorth yn adlewyrchiad teg a theilwng o'r aelodaeth o bob oedran, ac mae'r ffigyrau gwyllo o'r herwydd, ar ein sianel deledu, wedi bod yn gyson.

Hyfrydwch o'r mwyaf, serch hynny, ydi cael eich hysbysu bod yna unfrydedd ar y penderfyniad i ail-agor drysau'r capel ar gyfer cynnal oedfaon o Sul y 4ydd o Orffennaf ymlaen. Bryd hynny bydd Delwyn Sion yn ein harwain mewn oedfa gymun, ac er na fyddwn yn rhydd o hualau'r haint, fe ddaw cyfle unwaith yn rhagor i glywed sŵn emyn o fewn muriau'r capel.

Bydd angen i chi wisgo gorchudd wyneb, a bydd gofyn i bawb ddod a'r elfennau ar gyfer y cymundeb gyda hwy, yn ogystal a'ch copi eich hun o “Caneuon Ffydd”. (Gweler rhif yr emynau yn erthygl Delwyn ar y chwith)

O fewn y capel, bydd yr un drefn o gadw rhai seddau'n wag yn parhau - golyga hyn y bydd y niferoedd a all fynychu yn anorfod yn gorfod cael eu rheoli.

Byddwch yn cael eich tywys i'ch seddau, a bydd diheintydd ar eich cyfer wrth y drysau mewnol.

Byddwn yn recordio'r oedfa ac amcanwn ei darlledu ar ein sianel deledu, cyn diwedd y dydd, ar gyfer pawb na fydd yn gallu mynychu.

Byddwn yn cyd-addoli a'n cyfeillion yn y Tabernacl, Efail Isaf, ym mis Awst yn ôl yr arfer, a bydd mwy o fanylion i ddod am hynny.

Gobeithio y byddwch yn sylwi ar y newidiadau a wnaethpwyd o fewn y capel yn ystod y cyfnod diweddar yma, ac y bydd hynny yn ysbrydoliaeth i ni i gyd i symud ymlaen yn hyderus mewn gwisg newydd tuag at ddyfodol newydd!”

Rhodri-Gwynn Jones (Ysg)



Mae'n siŵr ei bod hi tua hanner nos, fis Rhagfyr d'wethaf - heolydd canol Caerdydd yn dawel dan glo a'r palmentydd dan haenen o rew trwm. Roedden ni'n ffilmio yn swyddfeydd Neuadd y Ddinas ac wedi sylwi ar griw bychan o fyfyrwyr, yn ôl eu golwg, yn sefyll yn amyneddgar ar y patshyn gwair lle'r arferai ffynhonnau'r ddinas ffrydio i'r awyr ar brynhawniau braf. Roedd cyfnod saith wythnos o ffilmio, ddeuddeg awr y dydd, ar fin dod i ben a phawb yn rhannu'r rhyddhad pan gwblhawyd siot olaf y dydd yn llwyddiannus. "That's a wrap" felly. Wynebaw'r actorion yn diflannu tu ôl i'w mygydau tan yfory a thechnegwyr blinedig yn cario'u hoffer trwm i lawr y grisiau llydan, heibio i gerfluniau Dewi Sant, Wiliam Morgan, Hywel Dda a'r lleill. Wnaeth cerflun yr un arwr symud bys na chynnig rhoi help llaw - ddim hyd yn oed Owain Glyndŵr...

Fi oedd un o'r olaf i adael. Bysedd rhewllyd yn cael trafferth datgloi clo y beic. "Excuse me. Could you tell me what you've been filming? Are you allowed to tell us?" Dyn ifanc oedd yno yn holi'n ddigon moesgar. "Of course..." medde fi a mynd yn fy mlaen i roi

ychydig o gefndir cyfres "Yr Amgueddfa" - "a Welsh language heritage thriller for S4C". Fe allwn deimlo ei siom cyn gweld ei wep yn disgyn. Yna fe sylwes i ar y Tardis oedd wedi'i wau ar ei siwmpwr wân. Nôl â fe at ei ffrindiau; un wedi'i wisgo fel Dalek. "They're not filming Dr Who!" bloeddiodd. "It's Ramghee something!" A bant â nhw i chwilio am griw ffilmio y Doctor oedd yng nghanol "night-shoot" rywle yng nghanol y ddinas, mae'n siŵr.

Bant â fi ar fy meic tua'r tywyllwch gan feddwl, "Dwi'n amau'n fawr fod cyfarwyddwr Dr Who yn seiclo adre rôl diwrnod o waith!" Wrth i fi reidio trwy'r strydoedd tawel fe weles i oleuadau pwerus yn disgleirio draw ger cefn y Brifysgol ac, wrth i fi agosáu, fe sylweddoles i mai Canolfan Brofi Covid oedd yno - canolfan dros dro i brofi myfyrwyr cyn iddyn nhw ddychwelyd adre dros y Nadolig. Wrth basio fe weles i wirfoddolwyr wrth fyrddau a meddygon mewn masgiau yn gweithio am oriau maith, ymhell y tu hwnt i oriau gwaith, er mwyn caniatáu i deuluoedd ddod at ei gilydd i ddathlu'r Nadolig yn ddiogel. Dyna waith di-ddiolch, meddyliais. Doctoriaid go iawn. Doctoriaid defnyddiol - heb griwiau o "ffans" yn sefyll y tu allan am oriau yn chwilio am "selfies" a llofnodion.

Bellach mae gwylwyr S4C wedi cael cyfle i farnu yr "heritage thriller" drostynt eu hunain. Digon prin fod y criw bach ffyddlon o ffans "Doctor Who" wedi dod i ddeall mai "Yr Amgueddfa" oedd "Ramghee something"... ond daeth tro yng nghynffon y stori wythnos yn ôl. Mewn adolygiad yn y Radio Times fe ddewiswyd y gyfres fel "cyfres i'w gwyllo" gan neb llai na Russell T. Davies, y gŵr oedd yn gyfrifol am adfywio oes "Doctor Who" pan ail-lansiwyd y gyfres honno rai blynyddoedd yn ôl. Diolch iddo fe am ei eiriau caredig - a diolch, unwaith yn rhagor, i bob nyrs, gweithiwr iechyd a doctor go iawn am eu gwaith parhaus a diflino.



Dydd Sul 16 Mai 2021

Dydd Mawrth 18 Mai oedd Diwrnod Neges Heddwch ac Ewyllys Da Cymru. Bob blwyddyn ers 1922, mae pobl ifanc Cymru yn anfon neges o heddwch i bobl ifanc dros y byd. Thema Neges Heddwch 2021 oedd Cydraddoldeb i Ferched. Cyflwynodd Holly'r neges i'r plant y bore ma a dangosodd ddau adnod o'r Beibl i ni:

'Gwnewch bopeth allwch chi i fyw mewn heddwch gyda phawb'
'Duw'r heddwch ydy Duw, dim Duw anhrefn'



Gofynnodd Holly i'r plant ddweud beth fyddai eu neges heddwch hwy, ac fe gawsom atebion da iawn sef i fod yn hapus, peidio cwmpo mas, pawb i fod yn gyfartal, dim 'nenfwd wydr', ac i garu ein gilydd.

Dydd Sul 23 Mai 2021

Heddi cynhaliwyd Eisteddfod yr Ysgol Sul. Cafodd y plant ddewis i berfformio'n fyw neu i anfon eu ymgais o flaen llaw. Cyrhaeddodd 19 eitem ar fideo o flaen llaw ac fe gawsom glywed dwy eitem yn fyw, ac yr oeddent i gyd yn ardderchog yn ôl Sioned, y beirniad swyddogol. Dyma'r canlyniadau:

- Sgiliau: 1^{af}: Megan; 2^{il}: Eli; 3^{ydd}: Alys.
Cerddoriaeth: 1^{af}: Gruff; 2^{il}: Awen; cydradd 3^{ydd}: Luned a Sara.
Coginio: 1^{af}: Alys ac Anni; cydradd 2^{il}: Ffion, Mabli ac Enfys.



Dydd Sul 30 Mai 2021 Sulgwyn (gwyliau – felly dim Ysgol Sul).

(parhad ar y dudalen nesaf)

Dydd Sul 6 Mehefin 2021

Lisa oedd yr arweinydd y bore ma ac fe gawsom wrando ar stori Iesu am y Ddafad golledig. Gofynnodd i'r plant os oeddent yn cofio pa anifeiliaid sy'n cael eu henwi yn y Beibl ac fe gawsom ein hatgoffa am hanes Noa a'r Arch, Daniel yn ffau'r llewod, Jona a'r Morfil, Gardd Eden a Stori'r Geni.

Ac i orffen fe wnaethon ni gyd chwarae'r gem " Pwy ydw i?"



Dydd Sul 13 Mehefin 2021

Llygredd aer a gofal am ein amgylchedd oedd testun Lowri yn yr Ysgol Sul y bore ma. Gan ei bod yn Ddiwrnod Aer Glân ar 17 Mehefin, soniodd am nifer o effeithiau amgylcheddol gwael fel yr effaith tŷ gwydr, cynhesu byd eang ac aer gwael yn effeithio ar ein hiechyd a phwysleisiodd bwysigrwydd coed i'r amgylchedd. Gofynnodd i'r plant beth allwn ni wneud i leihau llygredd aer ac anogodd hwy i gerdded cymaint a phosib ac osgoi defnyddio'r car os yn bosibl.



Dydd Sul 20 Mehefin 2021

Stori Moses gyflwynodd Holly i'r plant bore ma, sef ei hoff stori o'r Beibl pan oedd hi'n ferch fach yn yr Ysgol Sul. Hoff straeon y plant bore ma oedd Arch Noa, Adda ac Efa a'r Nadolig.

Heddi oedd yr Ysgol Sul olaf am y tro. Diolch o galon i'r holl rhieni sydd wedi arwain yn ystod y cyfnod clo ac, wrth gwrs, i'r plant am ddod i'r Ysgol Sul rhithiol bob wythnos. Mae wedi bod yn bleser pur cael bod yn eu cwmni. Fe fyddwn ni nôl ym mis Medi.



NEWYDDION AM BNAWN CHWARAEON YR YSGOL SUL – ar y dudalen nesaf.

NEWYDDION BETHLEHEM

Croesi i Jini Grug



Ers cyhoeddi ein rhifyn diwethaf fe aned Jini Grug i Sara ac Aled Davies – a dyma hi, yng nghwmni ei dau frawd, Elis a Steffan, a'i chwaer, Nanw. Un ychwanegiad i restr disgynyddion mamgu, Gwyneth Lewis, Pentyrch, (a darpar aelod ffyddlon arall o'r Ysgol Sul, fel ei brodyr a'i chwaer.)

BRAF OEDD GWELD Y CANLYNOL YN RHAN O EISTEDDFOD T YR URDD:

- Anna Tilsley - 3ydd am lefaru.
- Aron Griffiths y consurwr - 3ydd

RYDYN NI'N ANFON EIN COFION AT Y CANLYNOL

- **David Clement, Ffynnon Taf**, wedi iddo gael damwain a threulio ysbaid yn yr ysbyty.
- **Emyr Edwards, Llandaf**, yntau wedi gorfod treulio cyfnod yn ysbyty'r Waun.
- **Eurfryn Thomas, Radur**, sydd wedi cael cyfnod o seibiant yn Heol Don

PNAWN CHWARAEON YR YSGOL SUL

Bydd plant yr Ysgol Sul yn cwrdd bawn dydd Sul 4 Gorffennaf am 3 o'r gloch ar gae Heol Berry, Gwaelod-y-garth i chwarae rownderi a chymdeithasu. Dewch a blanced / cadeiriau ac unrhyw snacs/diodydd o'ch dewis chi. Mae croeso i bawb ymuno, ond rhowch wybod os ydych yn bwriadu dod fel y gallwn wirio'r niferoedd:

Cysylltwch â: heulwen@btinternet.com / 07779 360614

Sul y Cyfundeb – Gorffennaf 11

Bydd y Parchedig Ifan Roberts ym Methlehem, Gwaelod-y-garth.

Ar yr un Sul, yn y Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr, bydd Cyfundeb Dwyrain Morgannwg yn cynnal oedfa "Sul y Cyfundeb". Darlledir yr oedfa honno "ar Zoom" **am 9:45 a.m.** (sylwer) a bydd dan ofal y Parchedig Dylan Rhys, gweinidog newydd yr eglwys. Dyma'r manylion i ymuno ar Zoom.

<https://us02web.zoom.us/j/84389637732?pwd=VjZhZVlwa1g4OTNQeniRczd2OERjdz09>

Rhif Adnabod: 843 8963 7732
Cyfeirnod: EglTab21

Yr Oedfaon nesaf

10.30 y bore

hyd y cyfnod byddwn yn cyfnewid ag Efail Isaf
(Yn ôl ym Methlehem – gyda masgiau!)

- Gorff 4 -** Delwyn Sion – Cymun
Gorff 11 - Parchg Ifan Roberts – gweler hefyd ar y dde
Gorff 18 - Rhodri-Gwynn Jones
Gorff 25 - Parchg Lona Roberts

Trefniadau am yn ail ag Efail Isaf dros fis Awst i'w cadarnhau – daw neges am hyn i chi toc!

(Diolch i Delyth Evans, Y Barri, am ei holl waith yn trefnu'r Suliau.)

Casglu £1140 am gerdded

Odi chi ar Facebook? Fi yn, a wedi bod yn aelod ffyddlon ers rhyw ddeg mlynedd. Fi wrth 'y modd yn dishgwyl ar lunie ma' pobl wedi tynnu a cha'l hanes plant ac wyron fy ffrindie – rhai go iawn, a rhai "mewn dyfynodau" wrth gwrs.

Ma' rhai yn meddwl ei fod yn wastraff amser llwyr a bydde lot yn well, os odych chi mo'yn cadw mewn cysylltiad 'da phobl, i ffono nhw, ne' hala ebost, ne' hyd yn oed sgrifennu llythyr! Wel, fi'n neud rheina hefyd – ddim gyment o'r sgrifennu llythyrion falle – ond yn credu'i bod yn holl bwysig cadw cysylltiad 'da ffrindie. Fi wedi dod i gysylltiad gyda rhai nagw i wedi gweld ers blynedd ac wrth 'y modd yn dala lan 'da'r hanes i gyd.

Un o'r pethe fi'n lico am Facebook yw gallu cyfrannu at elusen pan ma' rhywun fi'n nabod yn neud rhyw weithgaredd ne' gilydd i godi arian. A fel chi'n gwbod, oherwydd y pandemig, ma' elusenne wedi chael hi'n anodd iawn yn ariannol, ac yn ddiolchgar iawn am bob cyfraniad.

Un o'm ffrindiau – go iawn nawr, nid jest ar Facebook – yw'r Parchedig Jeff Williams (sy' newydd ei ethol yn ddarpar-Lywydd Undeb yr Annibynwyr). Ni'n gyfarw'dd a Jeff yma ym Methlehem gan ei fod yn dod ato ni i gynnal oedfa nawr ac yn y man. Wrth bori ar dudalenne Facebook, weles i bod Jeff yn 'neud rhywbeth arbennig i godi arian i Gymorth Cristnogol 'leni, felly draw a fi i'w gwefan i ga'l mwy o fanylion. Ac os o'dd Jeff yn gallu neud e, yna pam lai fi hefyd a penderfynes i ymrwymo i neud yr un peth a fe, sef 'neud 300,000 o stepie ym mis Mai!

Tua 10,000 y dydd o'dd y nod ac er i dywydd mis Mai greu her i mi, fe gyrhaeddes i'r 300k gyda chwech diwrnod i fynd. Cerddes mewn tywydd braf, niwlog, glawog a gwyntog, ond yr her fwyaf o'dd cerdded trwy'r ceser! Golles i fy 'FitPro' ddwywaith (a'i ffeindio unwaith mewn bocs yn siop Birds Yr Eglwys Newydd) ac o'dd rhaid archebu strapen newydd iddo achos cafodd ei adel yn rhy agos at lamp ac fe doddodd! Ond mwynheais bob munud o'r daith. Cafodd Casi, ein ci bach ni, lot fawr o ymarfer corff hefyd, er nad o'dd hi'n rhy hoff o gerdded yn y glaw.

Ma' digon o gyfle yn ardal Yr Eglwys Newydd i gerdded rhywle gwahanol bob dydd heb fynd yn y car i whileo am lwybre gwahanol. Ma' Parc Hailey a Pharc Caedelyn ar bwys, yn ogystal â'r Dolydd Gogleddol a'r gamlas, ac wrth gwrs ma'r Llwybr Taf ar stepen y drws sy'n golygu bo fi'n gallu cerdded i'r gogledd tuag at Dongwynlais, i'r de tuag at Barc Biwt neu jest grwydro i Fferm y Fforest.

Licen i ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd i'r ymgyrch. Rydych chi, deulu Bethlehem, wedi bod yn hael iawn. Yn y pendraw fe gerddes i 349,829 cam a chodi £1,140 i Gymorth Cristnogol. Ro'dd dros 1,500 o bobl ar draws Prydain wedi ymrwymo i gerdded a chyfri eu came, ac erbyn hyn ma' £225,000 wedi cyrraedd coffre Cymorth Cristnogol fel canlyniad i'r ymgyrch.



Deufis i feddwl a pharatoi!

le! Dau fis llawn unwaith eto!

DYDDIAD CAU**AR GYFER****DEUNYDD I'R RHIFYN NESAF****Medi 15**

(Ysgrifennwch air neu ddau a'i anfon at Ifan Roberts:

tycnau@aol.com

Tegwch. Dyna'r nôd. Un o'r gwersi cyntaf a ddysgais i gan Olygyddion fel John Roberts Williams ac Arwel Ellis Owen yn nyddiau'r rhaglen ddyddiol HEDDIW ar y BBC oedd yr angen i ddangos dwy ochor pob stori mor deg ag oedd bosib; i ohebu mor deg â phosib ac i holi'n deg. Roedd hynny'n golygu rhoi heibio eich rhagfarnau personol gan wrando ar ddwy ochor y dadl. Ond dyw gwrando'r ddwy ochor ddim bob amser yn dechnegol bosibl.

Beth yw eich barn am Americanaid? Dyna i chi'r math hyglyw a bostfawr o Americanwr a ofynnodd i'r Cofi am gastell Caernarfon 'Say budd, what's this pile of stones'? A chael yr ateb 'Dunno. It wasn't here this morning.'!

Y stormydd diweddar yn Texas ddaeth â'r hanesyn canlynol yn ôl i'r côf. Mae Canolfan Ddarlledu'r BBC ym Mangor, lle bu fy swyddfa o 1979-1996, union gyferbyn â rhai o hosteli'r Brifysgol. Ym misoedd yr haf fe lenwid yr hosteli hynny naill ai gyda chynadledwyr neu deithwyr o wledydd tramor oedd ar wyliau. Yn aml iawn, deuai gwahoddiad o'r Brifysgol i roi sgwrs i deithwyr o'r fath am ddarlledu neu'r Eisteddfod a phynciau o'r fath.

Dau lond bws o Americanaid oedd yno yn haf 1990. Ar ôl swper ar Awst 27ain bŵm yn annerch y grŵp. Roedd rhyw gant ohonyn nhw'n bresennol; pobol o dalaith Illinois. Doedd dim pall ar eu cwestiynau ac aeth yn noson hwyrach na'r disgwyl.

Drannoeth torrodd y newyddion am gorwynt oedd wedi taro gogledd Illinois. Anafwyd dros dri chant o bobol a lladdwyd rhyw ddeg ar hugain gan effaith y corwynt. Achoswyd difrod mawr i adeiladau a ffyrdd y dalaith gan gynnwys y cyflenwad trydan a'r gwasanaeth ffôn.

Fel roeddwn i'n paratoi i adael y swyddfa ar ddiwedd y pŵn daeth neges gan un o'r Porthorion ym Mryn Meirion (enw'r Ganolfan Ddarlledu). "Mistar Evans, mae 'na rhyw bobol yn y cyntedd isho'ch gweld chi. lancia yda nhw." "Ddo i lawr rŵan."

Yno'n aros amdana i roedd gŵr a gwraig yn fawr eu gofid am y teulu yn Illinois. "We can't kinda get through and thought you could help." I fyny â ni i'r swyddfa. Cefais rif ffôn ganddynt; rhif eu merch. Ffonio, ond methu â chael drwodd. Rhoi cynnig arall arni ac eto, ac eto. O'r diwedd, llwyddo. Daeth llais merch o'r pen arall. Heb gymaint ag aros eiliad tynnwyd y ffôn o'm llaw. "Barbara darling; it's Mammy." Sefyll fan draw oeddwn i, yn fy swyddfa fy hun, yn clywed un ochor yn unig o'r sgwrs. Ebychiadau "Oh my God! ... Barbara darling how awful ... poor darling. Tell me the worst." Erbyn hyn roedd hi'n beichio crïo. A'i gŵr yn gafael yn dynn amdani. "Oh no ... no ... you mean both of them. And they were so pretty, so beautiful ..."

Erbyn hyn, roeddwn i'n dychmygu profedigaethau o bob math. Doedd dim pall ar yr och'neidio. O'r diwedd, rhoddodd y ffôn i lawr yn ei gawell ac esboniodd wrth ei gŵr "You know those two plates on the cupboard. They've both been broken."

Ac allan â nhw heb ofyn dim am gost yr alwad na hyd yn oed ddiolch am y gymwynas. Beth ddweddes i ar y dechrau am ragfarnau personol?

Gair bach am y lliw "Oval Room Blue" fyddwch chi'n ei weld ym Methlehem fore dydd Sul. Bu panel yn dewis o blith rhestr fer o liwiau gan gwmni o'r enw Farrow & Ball. Hwn oedd y ffefryn.

Mae'r colofnau'n dywyllach – ac erbyn deall, bu'r colofnau dan baent tebyg o ran lliw flynyddoedd mawr yn ôl!



LLONGDDRYLLIAD YR 'INVERNESS'



Yr Inverness yn Nociâu Caerdydd


Aeth can mlynedd mynd heibio ers i griw bach o forwyr (llawer ohonyn nhw'n Gymry) gychwyn ar eu taith ar y barque 'Inverness' o ddociau Caerdydd, heibio Durban, ar draws Cefnfor yr India, heibio Awstralia, gan anelu am Chile. Yn anffodus, chyrrhaeddodd nhw mo Chile gan fod cargo'r llong wedi tanio yng nghanol y Môr Tawel ('spontaneous combustion') a bu'n rhaid i'r criw ddianc mewn dau fad achub bychan ac anelu am y darn tir agosaf oedd 650 milltir i ffwrdd.

Ar ôl saith diwrnod yn y cychod achub fe gyrhaeddodd nhw ynys fechan o'r enw Rapa a chael croeso mawr gan y brodorion, pobl nid

annhebyg i'r Maori. Ac yno bu'r criw yn byw ymysg y brodorion am dros chwe wythnos, cyn i stemar alw amdany'n nhw a'u cludo i Tahiti (680 milltir o daith), ac yna nôl am Gymru.

*Etifeddodd **Alwyn Harding Jones** gopi personol ei daid, Thomas Harding Jones, un o'r criw, o lyfr 'log' y capten, sy'n cynnwys holl fanylion y daith, y llongddrylliad trychinebus, cofnod o'r amser eithriadol galed ar y cwch achub a'r amser mwy hamddenol gyda brodorion yr ynys. Dyna sail y gyfrol "RAPA".*

Isod, cewch ran gyntaf o hanes y llanc deunaw oed yn cyrraedd Caerdydd er mwyn ymuno a'r Inverness am y tro cyntaf. Cyhoeddir y gyfrol cyn hir gan Wasg Carreg Gwalch.



"Chydig fisoedd dros fy neunaw oed oeddwn i fis Mawrth 1917 pan gychwynais ar fy nhaith lawr i ddociau Caerdydd i ymuno â'r Barc Inverness. Llong hwylio dan ofal y Capten John Hughes, un o gyfoedion fy nhad, oedd yr Inverness. Roedd rhaid ffeindio ffordd fy hun tro yma, heb August Parry oedd wedi bod yn gwmni i mi ar fy nhaith i Plymouth yn agos i ddwy flynedd ynghynt. Roedd tre Caerdydd yn tyfu'n gyflym ac yn borthladd prysur a phwysig iawn yn allforio glo i bob rhan o'r byd. Dyma ble roedd y Gyfnewidfa Lo, pennaf le masnach y byd ar gyfer prynu a gwerthu glo. A chan mai glo de Cymru oedd yn cael ei gydnabod fel prif danwydd diwydiannol y byd, doedd dim syndod mai yma, ddegawd cyn i mi gyrraedd, sgrifennwyd y siec gyntaf erioed am filiwn o bunnau.

"Ar y pryd, roedd glo cymoedd y Rhondda, Cynon a Merthyr yn cael ei gydnabod fel y glo ager gorau oedd ar gael. Gan nad oedd glo cymoedd de Cymru'n mygu rhyw lawer wrth losgi (yn wahanol i'r glo ddeuai o ogledd Lloegr), ac yn darfod yn lludw mân, roedd yn ddelfrydol ar gyfer llongau rhyfel. Anfantais amlwg fyddai i long a'i mwg yn tywallt o'i chorn wrth iddi nesáu yn slei at gwch y gelyn. A dyna'r rheswm pennaf pam na ddefnyddid unrhyw lo ond glo de Cymru gan y Llynges Brydeinig.

"Roeddwn wedi docio yng Nghaerdydd am chydig ddyddiau o'r blaen, pan oeddwn ar y Maritime, ond heb fentro i'r lan. Er i'r hogia sôn gryn dipyn am y lle, roedd cerdded drwy Tiger Bay am y tro cyntaf i chwilio am swyddfeydd perchenogion y Barc Inverness yn brofiad braidd yn betrusgar. Yng nghanol budreddi'r strydoedd a'r prysurdeb o'm cwmpas, daeth geiriau Capten Hughes i'm tad rai blynyddoedd ynghynt yn gysur. "Peidiwch â phoeni Robat Jô's, os byth ddaw o hefo mi, fe edrycha' i ar ei ôl". Oedd, mi roedd y bachgen deunaw oed angen ei gysuro mewn lle mor arw, ac mewn amser mor gythryblus.

"Cefais hyd i swyddfeydd perchennog yr Inverness, un o dros gant o gwmniau bach a mawr oedd yn berchen llongau yng Nghaerdydd, hanner ffordd lawr Stryd Bute. Torrais fy enw ar gyfer y 'crew list' ac yna cychwynnais am dro o gwmpas y dociau enfawr i gael deall fy ffordd rownd.

"Wrth i mi fynd heibio gataiau 'Graving Dock No. 1', nepell o swyddfeydd y perchennog, tarodd fy llygaid ar lamp morlywio a golau coch arni ger drws ffrynt rhyw dafarn. Roeddwn wedi arfer gweld lamp debyg ar ochor chwith, neu 'port side' llong, a chan fy mod am adael y tir mawr o fewn dyddiau, penderfynais alw mewn am beint neu ddau. Roeddwn wedi gweld tipyn ar fywyd garw yn ystod fy amser ar fwrdd y Maritime ond roedd tafarn y Mount Stuart yn lle 'gwahanol' iawn. Cymysgfa o 'trimmers' sef gweithwyr fyddai'n gwasgaru'r glo oedd yn cael ei dywallt mewn i'r 'howld', ambell i berchennog cwmni llongau, a llongwyr cyffredin oedd ar fin gadael neu newydd gyrraedd nôl o'u mordeithiau. Dwi'n ei gofio'n lle chwyslyd iawn â'r llawr yn drwch o lo mân oedd wedi disgyn yn dawel fel eira du o ddillad gwaith y trimmers. Mae'n debyg fod digon o lwch ar ddiwedd noson i gadw tanau'r dafarn i fud-losgi nes bore trannoeth. Sylwais hefyd ar ambell i longwr oedd â'i gyflog yn llosgi yn ei boced wedi mordaith hir yn cael ei ddenu lawr i'r 'seler' gan ferched amheus yr olwg. Sylweddolais bryd hynny mai llanc digon diniwed oeddwn i byth, heb ddeall nes ar fy ffordd allan fod mwy nag un ystyr i'r lamp goch honno ger y drws ffrynt.

"Arhosais fy noson olaf ar dir sych yn nhafarn 'The Packet', yng nghanol Tiger Bay. Roedd y Packet yn cynnig lojin rhad a chefais gwmni llongwyr eraill oedd hefyd yn chwilio am rhyw long neu'i gilydd. A'r bora wedyn cychwyn ar fy mhen fy hun i chwilio'r Inverness, heibio'r Roath Basin a mewn i'r Queen Alexandra Dock. Ffeindiais i'r llong yn y diwedd. Hefo enw fel y 'Barque Inverness', rown i'n disgwyl llong hwylio go helaeth. Ond dyna'r syfrdandod cynta' o lawer oedd yn fy nisgwyl yn y misoedd oedd i ddilyn."



*Diolch i Alwyn
am gael cynnwys
rhagflas o'r
gyfrol. Edrychwn
ymlaen at gael
gweld yr hanes
yn gyflawn
mewn print.*

Oedfaon ar-lein – canol Mai hyd ddiwedd Mehefin

.....ac yn parhau i fod ar gael ar YouTube drwy wefan Bethlehem:

[www. Bethlehem.cymru](http://www.Bethlehem.cymru)

Mai 16



Y Parchedig Dafydd Andrew Jones

Mai 23 (Sulgwyn) – Merched Bethlehem




Eirlys Davies (Radur)



Rhian Huws



Eirlys Lamb



Eirlys Davies (Danescourt)



Marian Ifans



Delyth Pollard



Gwyneth Lewis



Delwyn Sion

Mai 30 (Sul Y Drindod)



Y Parchedig R Alun Evans



Jâms Powys



Rhys Powys

(Parhad ar y dudalen nesaf)

Parhad...

Oedfaon ar-lein – canol Mai hyd ddiwedd Mehefin

Mehefin 6 (Sul Cymun)



Delwyn Sion



Angharad Jones



Alwyn Harding Jones



Marged Cartwright

Mehefin 13



Huw Lloyd

Mehefin 20



Y Parchedig Glyn Tudwal Jones

Mehefin 27



Gwenllian Wyn



Y Parchedig Ganon Aled Edwards

DIOLCH I BAWB AM EU CYFRANIADAU AR-LEIN AR HYD YR HOLL FISOEDD AC I WYN JONES AM EI WAITH TECHNEGOL.

YN AWR MAE CYFLE I NI OLL FYNYCHU BETHLEHEM UNWAITH ETO.

DEWCH PAN FYDD HI'N GYFLEUS I CHI – OND RHOWCH WYBOD AM EICH BWRIAD I DDOD.

Mesur 'filanel' sydd gan Martin Huws, Ffynnon Taf, y tro hwn:

Rôl darllen pennill Harri Webb yn hunangofiant Meic Stephens:

*"Hooray for the festive season,
Peace and goodwill to man,
And a Merry Christmas, Lord Robens,
From the kids of Aberfan."*

Rhofio

Ni ddaw hi'n ôl i'r tŷ, Bodlondeb.
Lo's mam yn drwm, yr arch yn ysgawn.
Fel dwylo'n rhofio chwilia ateb.

Y bwrdd yn wfftio cyfrifoldeb,
y bwllch yn sgrech, jig-so'n anghyflawn.
Ni ddaw hi'n ôl i'r tŷ, Bodlondeb.

Y byd yn frou ar ôl trychineb
a neb ar fai, yn ôl y cyfiawn.
Fel dwylo'n rhofio chwilia ateb.

Y llacs oedd eitha eu ffolineb.
Diffodda cwmwl haul prynhawn,
ni ddaw hi'n ôl i'r tŷ, Bodlondeb.

Yng nghanol nos fe wêl ei hwyneb.
Yng nghanol gwern fe rewyd dawn.
Fel dwylo'n rhofio chwilia ateb.

Ac mewn ymchwiliad roedd ymateb:
doedd neb yn rhoi esboniad llawn.
Ni ddaw hi'n ôl i'r tŷ, Bodlondeb.
Fel dwylo'n rhofio chwiliwn ateb.

Martin Huws



***Dyma'r olygfa ar Fedi 13
y llynedd, pan
ddychwelodd y
gynulleidfa
i Fethlehem
ar ôl y clo cyntaf!***

***Edrychwn ymlaen i weld
ein gilydd unwaith eto
fore Dydd Sul. Cofiwch
ymarfer yr emynau:
36 a 500 a 205***

***Tan hynny,
COFION AT BAWB!***